Oriel Gelf **Glynn Vivian** Art Gallery

OFFSITE / ODDI AR Y SAFLE

# Artist Preswyl Glynn Vivian: Joe Dunthorne
**Ionawr – Mawrth 2016**

Mae rhaglen ‘Artist Preswyl’ Oriel Gelf Glynn Vivian yn gyfle i'r gymuned ryngweithio, cyfnewid  a gweithio gydag artist, ac i’r artist fyfyrio, ymchwilio a chydweithio. Ein hartist yn ystod misIonawr – Mawrth 2016 yw Joe Dunthorne.

Cafodd Joe Dunthorne ei eni a'i fagu yn Abertawe. Cafodd ei nofel gyntaf, Submarine, ei chyfieithu i 16 iaith a'i haddasu ar gyfer ffilm, wedi'i chyfarwyddo gan Richard Ayoade a'i chynhyrchu gan Ben Stiller. Cafodd ei bamffled barddoniaeth cyntaf ei gyhoeddi gan Faber and Faber. Cafodd ei ail nofel, Wild Abandon, ei chyhoeddi yn 2012 ac enillodd y Wobr Encore. Mae ei straeon wedi'u cyhoeddi yn y Paris Review, McSweeney's a chyrhaeddodd y rhestr fer ar gyfer Gwobr Stori Fer The Sunday Times.



Llun: Angus Muir, 2011

**Sgwrs Awdur Preswyl**

**Nos Iau 25 Chwefror, 5.30pm**

Ymunwch â Joe wrth iddo drafod ei gyfnod preswyl diweddar.